Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 ("y Rheoliadau")

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran dros yr Economi a Thrafnidiaeth ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â rheol sefydlog 24.1

Disgrifiad

Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 ("y Rheoliadau") yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol ei chyhoeddi am y trefniadau teithio y maent yn eu gwneud o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y Mesur") ac maent yn nodi sut a phryd y mae'r wybodaeth i'w chyhoeddi.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Dim.

Y Cefndir Deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan Adrannau 16 a 27 o'r Mesur, ac yn unol ag Adran 27(5) o'r Mesur, defnyddir y weithdrefn penderfyniad negyddol ar eu cyfer.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am drefniadau teithio a wneir o dan y Mesur, ac i drefnu hefyd fod yr wybodaeth honno ar gael. Maent yn nodi nid yn unig yr wybodaeth y bydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ei chyhoeddi ond hefyd, pryd a sut y dylid ei chyhoeddi a threfnu ei bod ar gael i rieni, dysgwyr, cyrff llywodraethu, penaethiaid a/neu bersonau eraill.

Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau'n pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyhoeddi a threfnu ei bod ar gael.

Gweithredu

Oni wneir y Rheoliadau, unwaith y cychwynnir y darpariaethau yn y Mesur i ddiddymu/diwygio Deddf Addysg 1996, ni fydd unrhyw ofynion statudol yng Nghymru i gyhoeddi gwybodaeth am drefniadau teithio neu i drefnu bod yr wybodaeth honno ar gael. Mater i'r awdurdodau lleol, yn ôl eu disgresiwn, fyddai penderfynu pa wybodaeth y dylent yn ei chyhoeddi neu drefnu ei bod ar gael, a phryd a sut y dylent wneud hynny. Gallai hyn arwain at anghysonderau.

O beidio â chychwyn y darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud â diddymu/diwygio Deddf Addysg 1996, byddai'r sefyllfa'n aros fel y mae ar hyn o bryd. Byddai'r gofynion yn dal i fod mewn darnau gwahanol o ddeddfwriaeth

a byddent yn gyfyngedig i'r hyn a bennir ynddynt. Mater i'r awdurdodau lleol o hyd, yn ôl eu disgresiwn, fyddai penderfynu pa wybodaeth arall y dylent drefnu ei bod ar gael neu ei chyhoeddi. Ni fyddai modd pennu gofynion ychwanegol.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Yr Opsiynau

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol, o dan adran 8 o Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999, gyhoeddi gwybodaeth gyffredinol am eu trefniadau a'u polisïau ar gyfer cludiant i ysgolion ac i golegau. Mae Rheoliad 6 o'r Rheoliadau hynny'n nodi sut a phryd y dylid gwneud hynny. Mae paragraffau 19 ac 20 o Atodlen 1 i Reoliadau 1999 yn ymdrin â'r trefniadau a'r polisïau cludiant ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig. Y sail statudol ar gyfer Rheoliadau 1999 yw adran 509 o Ddeddf Addysg 1996. At hynny, o dan adran 509 AA o Ddeddf 1996, mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol gyhoeddi datganiadau polisi am gludiant ar gyfer personau o oedran chweched dosbarth.

Wrth i'r gwaith cyffredinol o ddatblygu'r Mesur fynd rhagddo, un o'r amcanion oedd cydgrynhoi, symleiddio a gwella'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trefniadau Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n rhan o'r broses honno ac, ymhlith pethau eraill, byddant yn fodd i gysoni'r gofynion i gyhoeddi gwybodaeth ar gyfer dysgwyr o oedran chweched dosbarth â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer plant ysgol eisoes o dan Reoliadau 1999. Mae'r Mesur yn diddymu adran 509 o Ddeddf 1996 mewn perthynas â chludiant (a chan hynny, yn diddymu Rheoliadau 1999 i'r graddau y maent yn ymwneud â gwybodaeth am drefniadau cludiant) ac yn diwygio neu'n diddymu darpariaethau penodol yn adrannau 509A, AA, AB, ac AC fel na fydd yr adrannau hynny'n gymwys mewn perthynas â Chymru. Bwriedir i'r Rheoliadau ailddeddfu neu ddiwygio'r uchod a datblygu'r gofynion i gyhoeddi gwybodaeth ac i drefnu ei bod ar gael.

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

Byddai'r modd yr eir ati i ddarparu gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr yn parhau i fod yn ddarniog.

Opsiwn 2 – Darparu Canllawiau

Gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar yr wybodaeth y dylid trefnu ei bod ar gael i ddysgwyr, rhieni, penaethiaid a llywodraethwyr ynghylch y trefniadau teithio sy'n cael eu gwneud yn eu hardaloedd gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 15 o'r Mesur. Byddai canllawiau o'r fath yn disodli'r canllawiau anstatudol ar y mater hwn, a byddai modd nodi ynddynt safbwyntiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chyhoeddi. Byddai'n ofynnol i'r awdurdodau lleol ystyried

canllawiau o'r fath, a fel arfer eu dilyn. Fodd bynnag, gan ei bod yn bwysig sicrhau bod rieni a phlant yn derbyn y gwybodaeth yn amserol teimlwyd bod rheoliadau yn fwy priodol.

Opsiwn 3 – Cyflwyno Rheoliadau

Dyma'r opsiwn mwyaf effeithiol, sy'n mynd i'r afael yn llawn â'r amcanion polisi. Bydd y Rheoliadau'n fodd i sicrhau fframwaith statudol wedi'i gydgrynhoi a fydd yn sicrhau cysondeb ar draws Cymru o ran dull yr awdurdodau lleol o weithredu. Yn benodol:

- maent yn darparu dogfen integredig sy'n ymdrin â'r gofynion i gyhoeddi gwybodaeth am y trefniadau teithio ar gyfer plant o oedran ysgol ac o oedran chweched dosbarth, ac i drefnu bod yr wybodaeth honno ar gael;

- maent yn darparu ar gyfer dull cyson o weithredu gan holl awdurdodau lleol Cymru;

- maent yn rhoi cyfle i'w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol, neu i drefnu ei bod ar gael, fel y nodir yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'r wybodaeth ychwanegol hon yn ymwneud â'r gweithdrefnau cwyno ac apelio a, phan wneir cais i'r perwyl hwnnw, gwybodaeth am asesiadau a phenderfyniadau a wneir o dan y Mesur.

Costau a Manteision

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth opsiwn 1 i Lywodraeth Cynulliad Cymru nac i'r awdurdodau lleol, ond ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol ychwaith i'r awdurdodau lleol nac i rieni a dysgwyr. Mater i'r awdurdodau lleol, yn ôl eu disgresiwn, fyddai penderfynu pa wybodaeth yn ychwanegol at yr hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan ofynion Deddf Addysg 1996 y dylent ei chyhoeddi, a phryd y dylent ei chyhoeddi neu drefnu ei bod ar gael. Gallai hyn arwain at anghysondeb o ran y dull o weithredu ar draws Cymru ac ni fyddai unrhyw fanteision i rieni a dysgwyr.

Opsiwn 2 – Darparu Canllawiau

Byddai cyhoeddi'r cyfryw ganllawiau yn arwain at fân gostau gweinyddol o lai na £5,000 i Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, gan na fyddai unrhyw ofyniad statudol i ddarparu'r wybodaeth, ni fyddai unrhyw fanteision sylweddol i'r awdurdodau lleol, i rieni nac i ddysgwyr.

Opsiwn 3 – Cyflwyno Rheoliadau

Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â chyhoeddi'r Rheoliadau. Ni ddylai cyflwyno rheoliadau arwain at unrhyw gostau ychwanegol i'r awdurdodau lleol gan eu bod eisoes yn darparu gwybodaeth am deithio o dan Ddeddf Addysg 1996. Bydd y Rheoliadau o fantais i'r awdurdodau lleol am na fydd gofyn iddynt gyhoeddi cynifer o fathau gwahanol o ddogfennau, a byddant yn fodd hefyd i symleiddio'r gofynion o ran darparu gwybodaeth. Byddant o fantais i rieni ac i ddysgwyr am y bydd gwybodaeth am gludiant i'r ysgol ar gael yn fwy hwylus.

Asesu'r Gystadleuaeth

Ni chaiff y Rheoliadau effaith negyddol ar gystadleuaeth.

Ymgynghori

Aed ati i ymgynghori ynghylch fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau rhwng 3 Rhagfyr 2008 a 30 Ionawr 2009. Daeth un ar hugain o ymatebion i law: nid oedd gan bump unrhyw sylwadau i'w gwneud, roedd saith, at ei gilydd, yn cefnogi'r rheoliadau drafft, a chododd naw ohonynt amryfal faterion y bwriedir mynd i'r afael â hwy drwy ddiwygiadau i'r rheoliadau a thrwy ganllawiau ychwanegol lle bo hynny'n briodol. Mae dadansoddiad manwl ar gael o'r sylwadau a wnaed gan y rheini yr ymgynghorwyd â hwy, yn ogystal â'r camau a gymerwyd mewn ymateb iddynt.

Adolygu ar ôl Gweithredu

Byddwn yn adolygu trefniadau darparu gwybodaeth ar drafnidiaeth erbyn Mawrth 2012, a byddem hefyd yn cydweithio efo'r awdurdodau lleol ag eraill ar ôl gweithredu'r Rheoliadau.

Crynodeb

Mae angen y Rheoliadau er mwyn gweithredu darpariaethau a wnaed ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 gan eu bod yn nodi'r wybodaeth i'w chyhoeddi gan yr awdurdodau lleol am y trefniadau teithio y maent yn eu gwneud o dan y Mesur, a sut a phryd y mae'r wybodaeth honno i'w chyhoeddi. Ni fyddant yn arwain at unrhyw gostau i fusnesau ac ni fyddant ychwaith yn arwain at gostau sylweddol i'r awdurdodau lleol, gan fod yn rhaid iddynt ddarparu llawer o'r wybodaeth hon eisoes. Gallai manteision posibl y Rheoliadau, o ran gwella'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer dysgwyr a rhieni, fod yn sylweddol.